
Adroddiad Blynyddol

Annual Report

Cyngor Tref **Tregaron** *Town Council*

2024/2025



Ebost/*Email*: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk
Gwefan/*Website*: www.cyngor-tregaron-council.org.uk

Tabl Cynnwys / Table of Contents

Rhagair y Cadeirydd / <i>Chair Foreword</i>	3-4
Amdanom ni / <i>About us</i>	5-7
Cynlluniau Lle / <i>Place Plans</i>	8
Gwasanaethau'r Cyngor / <i>Council Services</i>	9
Cefnogi'r Gymuned / <i>Supporting the Community</i>	10
Cyllid / <i>Finances</i>	11-12
Dathliad Gŵyl Dewi / <i>St.David's Day Celebration</i>	13-15
Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig 2022-2025/ <i>Cynnal y Cardi UK Shared Prosperity Fund 2022-2025</i>	16-19

Rhagair y Cadeirydd / Chair Foreword

Daeth yn amser unwaith eto i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Cyngor Tref Tregaron am 2024/2025.

Mae'r flwyddyn wedi hedfan a chyflawnwyd llawer iawn fel Cyngor. Rhestrwyd nifer o brosiectau yn adroddiad llynedd a braf yw cael adrodd bod sawl un wedi eu gwireddu. Dyma'r rhestr –

- Mapiau o'r dref
- Ffynnon ddŵr
- Gorsaf drwsio beiciau
- Raciau beic
- Gwellianau i'r parc
- Llyfr cerdded

Mae gwaith wedi cychwyn ar yr Ardd Gymunedol ac mae'r bwrdd digidol yn cael defnydd rheolaidd. Diolchwn am bob grant a dderbyniwyd er mwyn cyflawni yr holl waith yma.

Erbyn hyn mae pawb yn ymwybodol bod y Cyngor yn ymgymryd â fwy o ddyletswyddau i edrych ar ôl ein dref ac mae'r Cynghorwyr yn rhoi o'u amser i sicrhau gwelliannau i'r trigolion ac ymwelwyr.

Trefnwyd digwyddiadau blynyddol fel yr arfer a diolch am eich cefnogaeth i sicrhau eu llwyddiant sef Gwasanaeth Sul y Cofio, troi goleuadau Nadolig ymlaen, Taith Sion Corn a Pharêd Gŵyl Dewi. Hefyd cafwyd bore i gasglu sbwriel.

Bu i ddau Cynghorwr ymddeol yn ystod y flwyddyn a diolchwn i Rhydian Wilson a Dewi Evans am eu gwaith dros yr amser iddynt fod yn Gynghorwyr.

Diolchaf i'r Clerc, y Gweithiwr Strydlun a'm cyd-cynghorwyr am bob cefnogaeth dros y flwyddyn a mawr hyderaf bydd 2025-2026 yn flwyddyn weithgar a llwyddiannus i'r Cyngor.

Cyng Catherine Hughes
Cadeirydd

The time has come again to present the Tregaron Town Council Annual Report for 2024/2025.

The year has flown by and a great deal has been accomplished as a Council. A number of projects have been listed in the annual report and it is good to report that several have been realized. Here is the list –

- Maps of the town
- Water fountain
- Bike repair station
- Bike racks
- Improvements to the park
- Walking book

Work has commenced on the Community Garden, and the digital board has regular use. We are grateful for the grants received to achieve all this work.

By now, everyone is aware that the Council is taking on more responsibilities to look after our town and the Councillors are giving their time to ensure improvements are made for the residents and visitors.

Annual events have been organised as usual and thank you for your support to ensure their success, namely the Remembrance Sunday Service, switching on the Christmas lights, the Santa Tour and St. David's Day Parade. There was also a morning to collect litter.

Two Councillors retired during the year and we thank Rhydian Wilson and Dewi Evans for their work during their time as Councillors.

I would like to thank the Clerk, the Street Worker, and my fellow councillors for all their support throughout the year and I have great confidence that 2025-2026 will be an active and successful year for the Council.

Cllr Catherine Hughes
Chairman

Amdanom ni / About us

Saif Tregaron yng nghysgod mynyddoedd y Cambrian; mae yn un o'r chwech prif-drefi marchnad yng Ngheredigion ac wedi gefeillio gyda Plouvien yn Llydaw ers 1999.


Mae'r Cyngor Tref yn ymatebol i bobl Tregaron ac mae yn ddyletswydd ar y Cyngor i gynrychioli gwahanol ddiddordebau o fewn y gymuned, yn gyfartal.

Mae'r Cyngor yn cwrdd ar y trydydd nos Lun o bob mis, ar wahân i fis Awst, a hynny am 7.30 yr hwyr yn y Neuadd Goffa.

Nid oes wardiau ac mae un-ar-ddeg o Gynghorwyr ar y Cyngor. Etholir cynghorwyr bob pum mlynedd a chynhelir y cyfarfod blynyddol ym mis Mai, pryd y dewisir Cadeirydd ac Is-gadeirydd.

Cyflogir Clerc i redeg busnes y Cyngor, ynghyd â gweithiwr Strydlun rhan amser.

Yn flynyddol, rhoddir cyfle i fudiadau niferus yn Nhregaron i gynnig am grant tuag at eu hamrywiol weithgareddau.



Tregaron stands in the shadow of the Cambrian Mountains, it is one of the six main market towns of Ceredigion and twinned with Plouvien, in Brittany, since 1999.

The Town Council is accountable to the people of Tregaron and has a duty to represent the varied interests of the community equally.

Meetings are held monthly, on the third Monday, with the exception of August, at 7.30 pm in the Memorial Hall.

There are no wards and eleven Councillors are elected to the Council every five years. The annual general meeting is held in May, when a Chair and Vice-Chair are selected.

A Clerk is employed to conduct the business of the Council, as well as a part-time Street scene worker.

Every year, there is an opportunity for numerous organisations in Tregaron, to apply for a grant towards their activities.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 11 aelod etholedig ac rydym yn cyflogi 2 aelod o staff rhan amser – Clerc a Gweithiwr Strydlun.

The Council consists of 11 elected members and we employ 2 part time staff – Clerk and Street Scene Worker –

Cynghorwyr / Councillors –

- Cyng / Cllr Catherine Hughes (Chair)
- Cyng / Cllr Arwel Jones
- Cyng / Cllr Rhydian Wilson (ymddiswyddodd yn Gorffennaf 2024 / Resigned in July 2024)
- Cyng / Cllr Rhian Jones
- Cyng / Cllr Owain Pugh
- Cyng / Cllr Dafydd Richards
- Cyng / Cllr Sian Jones
- Cyng / Cllr Dewi Evans
- Cyng / Cllr Rhian Hughes (Vice-Chair)
- Cyng / Cllr Gwion James
- Cyng / Cllr Meirian Morgan
- Cyng / Cllr Jo-Alice Davies (ymunodd yn Rhagfyr 2024 / Joined in December 2024)

Staff / Staff –

- Fflur Lawlor (Clerc / Clerk)
- Noel Jones (Gweithiwr Strydlun / Street Scene Worker)

Aelod Lleol Cyngor Sir Ceredigion / Ceredigion County Council Local Member –

- Cyng / Cllr Ifan Davies

Presenoldeb Cyfarfodydd Llawn y Cyngor 2024-2025 /

Full Council Meeting Attendance 2024-2025

Cyng/Cllr	20/05/2024	17/06/2024	15/07/2024	16/09/2024	21/10/2024	18/11/2024	16/12/2024	20/01/2024	17/02/2025	17/03/2025	14/04/2025	Cyfanswm/Total	%
Catherine Hughes	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	11	100.00%
Arwel Jones	Green	Red	Green	Red	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	9	81.82%
Rhydian Wilson (Ymddiswyddodd / Resigned 07/24)	Grey	Grey	Grey	Grey	Grey	Grey	Grey	Grey	Grey	Grey	Grey	2	18.18%
Rhian Jones	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	11	100.00%
Owain Pugh	Red	Green	Red	Green	Green	Red	Green	Green	Red	Green	Red	5	45.45%
Dafydd Richards	Red	Red	Green	Green	Green	Green	Green	Red	Red	Red	Green	9	81.82%
Sian Jones	Red	Green	Green	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Red	Green	5	45.45%
Dewi Evans	Green	Red	Green	Red	Green	Red	Red	Green	Green	Red	Green	6	54.55%
Rhian Hughes	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	11	100.00%
Gwion James	Green	Green	Red	Green	Green	Red	Red	Green	Green	Green	Green	10	90.91%
Meirian Morgan	Green	Green	Red	Green	Green	Red	Red	Green	Green	Green	Red	7	63.64%
Jo-Alice Davies (Ymunodd / Joined 12/24)	Grey	Grey	Grey	Grey	Grey	Green	Green	Green	Green	Red	Green	4	36.36%
Ifan Davies (Aelod Lleol CSC / CCC Local Member)	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Red	Green	Green	Green	5	45.45%
Fflur Lawlor (Clerc / Clerk)	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	11	100.00%

Mae'r Cyngor yn cyfarfod yn fisol ac mae ganddo'r is-bwyllgorau canlynol –

The Council meets on a monthly basis and has the following sub-committees –

Is-bwyllgorau a Chynrychiolwyr ar bwyllgor allanol / Sub-Committees & External Committee Representation	Aelod / Member
Gweinyddiaeth / Un Llais Cymru / Cyllid <i>Administration / One Voice Wales / Finance</i>	Clerc / <i>Clerk</i> Cadeirydd / <i>Chair</i> Is-Gadeirydd / <i>Vice Chair</i>
Iaith Gymraeg <i>Welsh Language</i>	Clerc / <i>Clerk</i> Cyng / <i>Cllr Arwel Jones</i>
Tregaron Taclus-Stryd/Meinciau/Gweithiwr Strydwedd <i>Tidy Tregaron-Street/Benches/Street Scene Worker</i>	Cyng / <i>Cllr Rhian Jones</i> Cyng / <i>Cllr Sian Jones</i> Clerc / <i>Clerk</i>
Parc / Blodau <i>Park / Flowers</i>	Cyng / <i>Cllr Rhian Jones</i> Cyng / <i>Cllr Owain Pugh</i> Cyng / <i>Cllr Dewi Evans</i>
Bwrdd Digidol <i>Digital Board</i>	Cyng / <i>Cllr Arwel Jones</i> Cyng / <i>Cllr Meirian Morgan</i> Clerc / <i>Clerk</i>
Busnesau / Digwyddiadau Lleol <i>Local Businesses / Events</i>	Cyng / <i>Cllr Rhydian Wilson</i>
Llwybrau Cyhoeddus <i>Public Footpaths</i>	Cyng / <i>Cllr Rhydian Wilson</i> Cyng / <i>Cllr Dafydd Richards</i> Cyng / <i>Cllr Owain Pugh</i>
Cylch Caron / Canolfan Deulu <i>Cylch Caron / Family Centre</i>	Cyng / <i>Cllr Catherine Hughes</i>
Cynllunio / Twristiaeth / Hamdden / Cynlluniau Lle <i>Planning / Tourism / Leisure / Place Plans</i>	Cyng / <i>Cllr Rhydian Wilson</i> Cyng / <i>Cllr Arwel Jones</i> Cyng / <i>Cllr Catherine Hughes</i> Clerc / <i>Clerk</i>

Cynlluniau Lle / Place Plans

Mae Cynlluniau Cynefin yn fecanwaith a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i gymunedau ymgysylltu'n greadigol â'r broses gynllunio ac i gynllunwyr gefnogi mentrau creu cynlluniau gyda phobl leol.

Gall Cynlluniau Cynefin ddarparu cyfle i gynnig coethi manylion polisi cynllunio (canllaw thematig neu'n safle benodol) ar gyfer ardaloedd lleol a ddylai adlewyrchu arwahanrwydd lleol a delio â materion lleol a'r rhai sy'n benodol i'r gymuned.

Mae Cynlluniau Cynefin yn delio ag ardal gymunedol neu glwstwr o araloedd cymunedol a disgwylir bod eu paratoi, yn ddelfrydol ond nid yn gyfangwbl, yn cael ei arwain gan Gyngorau Tref a Chymuned.

Mae'r Cynlluniau Cynefin ar gyfer ardaloedd gyda Chyngorau Tref bellach ar gael i'w gweld, sef Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul, Cei Newydd a Thregaron, ac yn yr achos hwn maent wedi eu paratoi gan y Cyngorau Tref. Os hoffech ddysgu mwy, cysylltwch â Cyngor Tref Tregaron.

Gellir gweld y Ddogfen ar gyfer tref Tregaron yma – [2024-cynllun-bro-tregaron.pdf](#)

Place Plans are a mechanism introduced by Welsh Government for communities to engage creatively with the planning process and for planners to support in place-making initiatives with local people.

Place Plans can provide an opportunity to offer a finer grain of planning policy detail (thematic or site specific guidance) for local areas that should reflect local distinctiveness and address local, specific community scale issues.

Place Plans are to cover a community area or a cluster of community areas and the expectation is that their preparation should ideally, although not exclusively, be led by Town and Community Councils.

The Place Plans for areas with Town Councils are now available to view, namely Aberaeron, Aberystwyth, Cardigan, Lampeter, Llandysul, New Quay and Tregaron, and in this instance they have been prepared by the Town Councils. If you would like to learn more, please get in touch with Tregaron Town Council.

The Document for Tregaron town can be seen here - [2024-tregaron-place-plan.pdf](#)

Mae'r Cyngor yn darparu llawer o wasanaethau lleol ac yn gweithio gyda Chyngor Sir Ceredigion a grwpiau Cymunedol i gefnogi'r gymuned.

Yn benodol rydym ni -

- Gofalu am gerflun Henry Richard ar Sgwâr Tregaron
- Darparu cyfleusterau cyhoeddus mewn partneriaeth ag Arwerthwyr DAG ym Mart Tregaron, Heol yr Orsaf, Tregaron
- Darparu arddangosfeydd blodau mewn llawer o leoliadau ar draws y dref
- Cynnal y meinciau ledled y dref
- Trefnu nifer o ddiwyddiadau cymunedol gan gynnwys sesiynau codi sbwriel, troi'r goleuadau Nadolig ymlaen a Thaith Siôn Corn
- Yn rheoli Parc Tregaron (ar brydles gan Gyngor Sir Ceredigion)
- Cydlynu'r Bwrdd Digidol sydd wedi'i leoli ar Sgwâr Tregaron
- Yn gyfrifol am y biniau gwastraff cŵn
- Cylch Cerrig
- Coed Nadolig a Goleuadau
- Sul y Cofio
- Gwobr a Dathliad Gŵyl Dewi

The Council provides many local services and works with Ceredigion County Council and Community groups to support the community.

In particular we –

- *Look after the statue of Henry Richard on Tregaron Square*
- *Provide Public conveniences in partnership with DAG Auctioneers at Tregaron Mart, Station Road, Tregaron*
- *Provide floral displays in many locations across the town*
- *Maintain the benches throughout the town*
- *Arrange a number of community events including litter picks, turning on the Christmas lights and the Santa Tour*
- *Manages Tregaron Park (leased from Ceredigion County Council)*
- *Co-ordinate the Digital Board located on Tregaron Square*
- *Responsible for the Dog waste bins*
- *'Cylch Cerrig'*
- *Christmas Trees and Lights*
- *Remembrance Sunday*
- *St.David Day Award & Celebration*

Cefnogi'r Gymuned / Supporting the Community

Mae'r Cyngor yn ddiolchgar i'r holl grwpiau sy'n trefnu digwyddiadau yn ein cymuned, boed yn un digwyddiad neu yn ddigwyddiadau rheolaidd.

Mae'r cyngor yn dyrannu rhywfaint o'i gyllideb bob blwyddyn i gefnogi grwpiau lleol. Eleni rhoesom grantiau gwerth cyfanswm o £1300 ar gyfer grwpiau sy'n cwmpasu'r ystod lawn o'n preswylwyr o'r ieuengaf i'r ieuengaf ein hynaf.

Yn ogystal, rydym yn rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau trwy arddangos posteri ac erthyglau ar ein hysbysfyrddau, ein gwefan a thudalen Facebook Tregaron a rhoi cymorth a chynghor lle gallwn.

Mae'r Cyngor wedi dyrannu £1500 pellach tuag at gymorth grant ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 ac mae manylion am sut i wneud cais ar ein gwefan.

The Council is grateful to all the groups that organise events in our community, whether they be one off or regular events.

The council allocates funds each year to support local groups. This year we gave grants totalling £1300 for groups encompassing the full range of our residents from the youngest to our most senior.

In addition, we publicise events by displaying posters & articles on our noticeboards, website and Tregaron Facebook page and give help and advice where we can.

The Council has allocated a further £1500 towards grant support for the 2025-26 financial year and details of how to apply can be found on our website.

Cefnogwyd y mudiadau canlynol –
The following organisations were supported –

1) C.Ff.I Tregaron YFC (Rali Ceredigion) -	£500
2) Clwb Hoci Caron Hockey Club -	£100
3) Tregaroc -	£100
4) Carnifal Tregaron Carnival -	£100
5) Canolfan Dreftadaeth Tregaron Heritage Centre -	£100
6) Taith Dyffryn Tefif / Teifi Valley Trail -	£100
7) Papur Bro Y Barcud -	£100
8) Eisteddfod Gadeiriol Tregaron -	£100
9) Merched y Wawr Tregaron -	£100

Cyllid / Finances

Rheolir gwariant y Cyngor gan broses gyllidebu a monitro. Wrth osod ei gyllideb mae'r Cyngor yn anelu at ddarparu gwasanaethau, rheoli cyfleusterau a chyflawni ei flaenoriaethau. Ystyrir y gyllideb yng nghyfarfod misol lonawr yn flynyddol.

Er mwyn rheoli arian cyhoeddus yn effeithiol mae Cyngor Tref Tregaron:

- Ymdrechu i gael gwerth am arian
- Monitro a rheoli gwariant yn unol â'i Reolau Sefydlog a'i Reoliadau Ariannol
- Ystyried cymariaethau cyllidebol yn erbyn gwirioneddol drwy gydol y flwyddyn
- Yn darparu cyllid grant
- Nodi prosiectau'r dyfodol, yn ôl yr angen

Crynodeb ariannol ar gyfer y flwyddyn 2024/25:

<i>Balans ar 31/03/24</i>	27,356.43
Cyfanswm Gwariant	-107,132.82
<i>Praesept (Treth y Cyngor)</i>	25,000
<i>Amryw. Incwm</i>	37,532.40
<i>Nawdd Grant</i>	39,406.19
Cyfanswm yr Incwm	101,938.59
<i>Balans ar 31/03/25</i>	<i>19,063.27</i>

Mae cyfrifon y Cyngor yn cael eu harchwilio bob blwyddyn yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018. Mae cyfrifon diwedd blwyddyn 2024/25 ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor a byddant ar gael i'w harchwilio yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mae'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn 2024/25 wedi'u harchwilio'n briodol ond heb eu hardystio eto gan yr archwilydd allanol. Yn ôl y gyfraith mae gan unrhyw berson â diddordeb yr hawl i archwilio cyfrifon Cyngor. Os oes gennych hawl ac wedi'ch cofrestru i bleidleisio yn etholiadau'r Cyngor Tref, yna mae gennych chi (neu'ch cynrychiolydd) hefyd yr hawl i ofyn cwestiynau i'r archwilydd penodedig am gyfrifon y cyngor neu herio eitem o gyfrif sydd ynddynt.

Os hoffech chi fel preswilydd gyflwyno unrhyw awgrymiadau i'r Cyngor ar gyfer prosiectau yn y dyfodol a fyddai o fudd i'r gymuned ac yn hybu llesiant, cysylltwch â'r Clerc.

The Council's expenditure is controlled by a budgeting and monitoring process. In setting its budget Council aims to provide services, manage facilities and meet its priorities. The budget is considered at the January monthly meeting annually.

In order to effectively manage public funds Tregaron Town Council:

- *Strives to obtain value for money*
- *Monitors and controls expenditure as per its Standing Orders and Financial Regulations*
- *Considers budget versus actual comparisons throughout the year*
- *Provides grant funding*
- *Identifies future projects, as required*

Financial summary for the year 2024/25:

<i>Balance as at 31/03/24</i>	27,356.43
Total Expenditure	-107,132.82
<i>Precept (Council Tax)</i>	25,000.00
<i>Misc. Income</i>	37,532.40
<i>Grant received</i>	39,406.19
Total Income	101,938.59
<i>Balance as at 31/03/25</i>	<i>19,063.27</i>

The Council's accounts are audited each year in accordance with the Accounts and Audit (Wales) (Amendment) Regulations 2018. End of year accounts for 2024/25 are available to view on the Council's website and will be available for inspection later in the year.

The accounts for the year 2024/25 have been duly audited but not yet certified by the external auditor. By law any interested person has the right to inspect a Council's accounts. If you are entitled and registered to vote in the Town Council elections, then you (or your representative) also have the right to ask the appointed auditor questions about the council's accounts or challenge an item of account contained within them.

If, as a resident you would like to put forward any suggestions to Council for future projects that would benefit the community and promote well-being, please contact the Clerk.

Dathliad Gŵyl Dewi Tregaron / Tregaron St.David Day Celebration

Cynhaliwyd dathliad Gŵyl Dewi Tregaron prynhawn Gwener 21ain o Chwefror yng nghwmni Ysgol Henry Richard.

Oherwydd y tywydd garw cynhaliwyd y dathliad yn Neuadd Ysgol Henry Richard lle roedd y Pictôns yn ein croesawi.

David Edwards oedd enillydd Gwobr Gŵyl Dewi Tregaron yn 2024 ac ef oedd yn arwain y pared eleni.

Croesawyd pawb gan Cadeirydd y Cyngor Tref, Cyng. Catherine Hughes a chafwyd eitemau gan ddisgyblion Ysgol Henry Richard.

Eleni eto mae Cyngor Tref Tregaron wedi cynnal gwobr i gydnabod cyfraniad gwirfoddol lleol.

Bwriad y wobwr yw dathlu a diolch i wirfoddolwr sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol i ardal Tregaron.

Derbynwyd sawl enwebiad am fobl sydd wedi gweithio'n ddiwyd a thawel er lles yr ardal a hynny mewn mewn meysydd tebyg i chwaraeon, cymuned, amaeth, plant, pobl ifanc, pobl hŷn neu unrhyw faes arall . Mae yna gymaint o bobl sy'n gwneud gwaith gwych yn y gymuned a hynny heb unrhyw gydnabyddiaeth o gwbl, felly dyma gyfle i gydnabod ymrwymiad un o sêr yr ardal.

I fod yn ddilys am y wobwr roedd rhaid i'r unigolyn a enwebyr:-

- Fyw ym mhlwyf etholiadol Tregaron
- Fod dros 18 mlwydd oed
- Fod wedi gwneud gwaith gwirfoddol sy'n berthnasol i'r dre

Penodwyd panel annibynnol y tu allan i'r Cyngor Tref i benderfynu ar yr enillydd. Hoffai'r panel longyfarch pawb a enwebwyd a chydabod y gwaith a wneir gan yr holl unigolion a sefydliadau lleol. Mae eu hymroddiad a'u gwaith diflino yn mynd yn bell ac yn gwneud Tregaron yn le arbennig.

Mae Dilwyn Daniel wedi bod yn gweithio'n ddiwyd yn y gymuned gyda Clwb Pel-Droed Tregaron Turfs ers blynnyddoedd lawer. Person gweithgar a chymwynasgar. Dilwyn yw Cadeirydd, Rheolwr, a Thirmon presennol Clwb Pel Droed Tregaron Turfs. Buodd yn hyfforddi un o dimoedd ieuencid Tregaron am dros ddeg mlynedd ac ers hynny mae e wedi bod yn rheoli tim y dynion. Mae e wedi bod yn reolwr ar dim y dynion ers ugain mlynedd nawr ac wedi cael tipyn o lwyddiant. Mae wedi rhoi cyfleoedd i gannoedd o bobol o bob oedran i chwarae pel-droed yn lleol i'r Turfs. Mae bod yn reolwr ar dim pel-droed yn dipyn o ymrwymiad ac mae'n rhoi ei amser i ddod i'r ymarferion ac i bob gem adref ac i ffwrdd, a hyfforddi bob wythnos. Ar ben y gwaith rheoli, Dilwyn yw Tirmon y clwb ac mae'n rhoi oriau i fewn bob wythnos i dorri a rollo'r cae. Mae pawb sy'n nabod Dilwyn yn gwybod faint mae'r Turfs yn olygu iddo, a'r gwaith caled mae'n gwneud bob wythnos i sicrhau bod y clwb yn ffynnu.

Mae'r enghreifftiau yma yn dangos ei ymroddiad tuag at y gymuned. Mae'n haeddiannol o dderbyn y wobwr. Llongyfarchiadau mawr Dilwyn!

Talwyd pleidlais o ddiolch gan Is-Gadeirydd y Cyngor Tref Cyng. Rhian Hughes a gorffenydd trwy gyd ganu ein anthem cenedlaethol.

The celebration of St David Tregaron took place on the afternoon of Friday 21st February in the company of Ysgol Henry Richard.

Due to the bad weather the celebration was held in the Henry Richard School Hall where the Pictôns welcomed us.

David Edwards was the winner of the Tregaron St. David's Festival Award in 2024 and he led the parade this year.

Everyone was welcomed by the Chairman of the Town Council, Cllr. Catherine Hughes and items were received from pupils of Ysgol Henry Richard.

This year again Tregaron Town Council has held an award to recognize local voluntary contribution.

The purpose of the award is to celebrate and thank a volunteer who has made an exceptional contribution to the Tregaron area.

Several nominations were received for people who have worked diligently and quietly for the benefit of the area in areas such as sports, community, agriculture, children, young people, older people or any other area. There are so many people who do great work in the community without any recognition at all, so this is an opportunity to recognize the commitment of one of the area's stars.

To be valid for the award the individual who nominated had to:

- Live in the electoral parish of Tregaron*
- Be over 18 years old*
- Having done voluntary work relevant to the town*

An independent panel outside the Town Council was appointed to decide the winner. The panel would like to congratulate all those nominated and acknowledge the work done by all the local individuals and organisations. Their dedication and tireless work go a long way and make Tregaron a special place.

Dilwyn Daniel has been working diligently in the community with Tregaron Turfs Football Club for many years. Active and helpful person.

Dilwyn is the current Chairman, Manager and Groundsman of Tregaron Turfs Football Club. He coached one of Tregaron's youth teams for over ten years and since then he has been managing the men's team. He has been manager of the men's team for twenty years now and has had quite a bit of success. It has given hundreds of people of all ages opportunities to play football locally for the Turfs. Being a manager at no football is a bit of a commitment and he gives his time to come to training and every home and away game, and train every week. On top of the management work, Dilwyn is the club's Groundsman and he puts in hours every week to cut and roll the pitch. Everyone who knows Dilwyn knows how much the Turfs mean to him, and the hard work he does every week to ensure the club thrives.

These examples show his dedication to the community. He deserves to receive the award. Congratulations Dilwyn!

A vote of thanks was given by the Vice-Chairman of the Town Council Cllr. Rhian Hughes and we all finished singing our national anthem.



Cadeirydd Cyngor Tref Tregaron, Cyng. Catherine Hughes yn cyflwyno Dilwyn Daniel a'r wobwr Cllr. Catherine Hughes, Chair of Tregaron Town Council presenting Dilwyn Daniel with the award



Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig 2022-2025/ Cynnal y Cardi UK Shared Prosperity Fund 2022-2025

Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (CFfGDU) yn biler canolog ar agenda uchelgeisiol Llywodraeth y DU i Ffyniant Bro, ac yn elfen sylweddol o'i chefnogaeth i leoedd ledled y DU. Mae'n darparu tair blynedd o gyllid ar gyfer buddsoddiad lleol.

Mae Rhanbarth Canolbarth Cymru (Ceredigion a Phowys) wedi cael £42 miliwn rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2025. Prif nod y Gronfa yw meithrin balchder mewn lle a gwella cyfleoedd bywyd ledled y DU. Mae hyn yn gydnaws â chenadaethau'r Papur Gwyn ar Ffyniant Bro, yn enwedig: "Erbyn 2030, bydd balchder mewn lle, megis boddhad pobl â'u tref leol a'r ffordd y maent yn cymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol a chymunedol lleol, wedi cynyddu ym mhob rhan o'r DU, a bydd y bwlch rhwng yr ardaloedd sy'n perfformio orau ac ardaloedd eraill yn lleihau".

Roedd Cronfa Datblygu a Chefnogi Cymunedol Cynnal y Cardi yn helpu i wneud gwahaniaeth yn eich cymuned. Nod y gronfa yw darparu cymorth ariannol ar raddfa fach i:

1. Cefnogi ac ymgysylltu â phobl, busnesau a chymunedau lleol i ddarparu atebion cynaliadwy ond arloesol i fynd i'r afael â rhai o'r heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n wynebu eu hardaloedd
2. Rhoi cyfle i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau neu weithio gyda chymunedau i dreialu ffyrdd newydd o weithio, neu dreialu syniadau sy'n mynd i'r afael â materion sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau allweddol a nodwyd.
3. Darparu cymorth angenrheidiol i helpu i gryfhau gwead cymdeithasol cymunedau, gan adeiladu balchder yn ei le tra hefyd yn sicrhau budd uniongyrchol a/neu economaidd.
4. Adeiladu cymdogaethau gwydn, iach a diogel trwy fuddsoddi mewn lleoedd o ansawdd y mae pobl eisiau byw, gweithio, chwarae a dysgu ynddynt.

Llwyddodd Cyngor Tref Tregaron i ennill grant o £39,406.19 gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Cynnal y Cardi a chyfrannodd y Cyngor Tref £21,387.14 o gronfeydd ei hunan, gyda chyfanswm gwariant prosiect o £60,793.33.

Cefnogodd Cronfa Ffyniant Gyffredin Cynnal y Cardi UK 2022-2025 Gyngor Tref Tregaron gyda –

- Prosiect beiciau: gosod ffynnon ddŵr, raciau beiciau, stondin cynnal a chadw beiciau a gwefrydd e-feic.
- Gardd Gymunedol
- Llwybr Hanes o gwmpas y dref – dylunio ac argraffu byrddau
- Gwaith adfer yn Capel Wesley
- Offer chwarae yn y Parc
- Meinciau Newydd
- Bowser Dŵr
- Adfer Capel Wesle
- Cert Glanhau Strydoedd

The UK Shared Prosperity Fund (UKSPF) is a central pillar of the UK government's ambitious Levelling Up agenda and a significant component of its support for places across the UK. It provides three years funding for local investment.

The Mid Wales Region (Ceredigion and Powys) has been allocated £42 million from 1 st April 2022 to 31st March 2025. The primary goal of the UKSPF is to build pride in place and increase life chances across the UK. This aligns with Levelling Up White Paper missions, particularly: 'By 2030, pride in place, such as people's satisfaction with their town centre and engagement in local culture and community, will have risen in every area of the UK, with the gap between the top performing and other areas closing.'

The Cynnal y Cardi Community Development and Support fund helped make a difference in your community. The aim of the Cynnal y Cardi Community Development and Support fund is to provide small-scale financial support to:

- 1. Support and engage local people, businesses, and communities in delivering sustainable yet innovative solutions to address some of the economic, social and environmental challenges facing their areas*
- 2. Provide an opportunity for organisations delivering services or working with communities to pilot new ways of working, or trial ideas that tackle issues aligned with key identified priorities.*
- 3. Provide necessary support to help strengthen the social fabric of communities, building pride in place whilst also delivering direct and/or economic benefit.*
- 4. Build resilient, healthy, and safe neighbourhoods through investment in quality places that people want to live, work, play and learn in.*

Tregaron Town Council were successful in gaining a grant of £39,406.19 from Cynnal y Cardi UK Shared Prosperity Fund and the Town Council contributed £21,387.14 from their own funds, with a total project spend of £60,793.33.

Cynnal y Cardi UK Shared Prosperity Fund 2022-2025 supported Tregaron Town Council with –

- Bikes project: installation of water fountain, bike racks, bike maintenance stand and e-bike charger.*
- Community Garden*
- Town History Trail – design & printing of boards*
- Wesley Chapel Restoration work*
- Play equipment in the Park*
- New Benches*
- Water Bowser*
- Restoration of Wesley Chapel*
- Street Cleaning Cart*



Offer newydd yn y Parc / *New equipment at the Park*



Adfer Capel Wesley a mainc newydd / *Restoration of Wesley Chapel & new bench*



Ffynnon ddŵr / *Water fountain*



Stodin cynnal a chadw beiciau a gwefrydd e-feic
Bike maintenance stand and e-bike charger



Raciau beiciau / Bike Racks



Gardd Gymunedol / Community Garden

1 Y Sgwâr

Tregaron
The fact that Tregaron is a small market town is reflected in the fact that it has a small market square, which is the heart of the town. It is a place where people meet and do business, and it is a place where the community comes together.

Rhiannon
The town of Rhiannon is a small market town, and it is a place where people meet and do business. It is a place where the community comes together, and it is a place where the town is a place where people meet and do business.

Henry Richard
The town of Henry Richard is a small market town, and it is a place where people meet and do business. It is a place where the community comes together, and it is a place where the town is a place where people meet and do business.

Y Talbot
The town of Y Talbot is a small market town, and it is a place where people meet and do business. It is a place where the community comes together, and it is a place where the town is a place where people meet and do business.

Elefant
The town of Elefant is a small market town, and it is a place where people meet and do business. It is a place where the community comes together, and it is a place where the town is a place where people meet and do business.

Cyffion
The town of Cyffion is a small market town, and it is a place where people meet and do business. It is a place where the community comes together, and it is a place where the town is a place where people meet and do business.

1 The Square

Tregaron
The town of Tregaron is a small market town, and it is a place where people meet and do business. It is a place where the community comes together, and it is a place where the town is a place where people meet and do business.

Rhiannon
The town of Rhiannon is a small market town, and it is a place where people meet and do business. It is a place where the community comes together, and it is a place where the town is a place where people meet and do business.

Henry Richard
The town of Henry Richard is a small market town, and it is a place where people meet and do business. It is a place where the community comes together, and it is a place where the town is a place where people meet and do business.

The Talbot
The town of The Talbot is a small market town, and it is a place where people meet and do business. It is a place where the community comes together, and it is a place where the town is a place where people meet and do business.

Elephant
The town of Elephant is a small market town, and it is a place where people meet and do business. It is a place where the community comes together, and it is a place where the town is a place where people meet and do business.

Stocks
The town of Stocks is a small market town, and it is a place where people meet and do business. It is a place where the community comes together, and it is a place where the town is a place where people meet and do business.

Bwrdd 1 - taith hanes / Board 1 - history trial